# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 (Senedd)

Dyddiad: Dydd Llun, 11 Mawrth 2024

Amser: 13:30 - 17:00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

**Cofrestru cyn y cyfarfod (13:15 - 13:30)**

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(13:30)

**2 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: panel 5**

(13:30-14:30) (Tudalennau 1 - 22)

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru

Gary Emery, Cyfarwyddwr Archwilio

Martin Peters, Pennaeth y Gyfraith a Moeseg

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i wahardd y cyhoedd o eitemau 4 a 7 ar agenda heddiw ac o eitem 1 ar agenda'r cyfarfod ar 18 Mawrth 2024**

(14:30)

**4 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod ymateb Llywodraeth Cymru**

(14:30-14:45) (Tudalennau 23 - 45)

**Egwyl (14:45 - 15:00)**

**5 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: panel 6**

(15:00-16:45)

Y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Dawn Docx, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Y Cynghorydd Gwynfor Thomas, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roger Thomas, Prif Swyddog Tân GwasanaethTân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Y Cynghorydd Steven Bradwick, cyn-Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Dewi Rose, Dirprwy Brif Swyddog Tân Dros Dro, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

## 6 Papurau i'w nodi

(16:45)

**6.1 Gohebiaeth rhwng y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip a'r Cadeirydd ynghylch Uwchgynhadledd Cyfiawnder Ieuenctid ar Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**

(Tudalennau 46 - 48)

**6.2 Gohebiaeth gan Jane Dodds at y Cadeirydd ynghylch creu rôl Weinidogol newydd ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc (Saesneg yn unig)**

(Tudalennau 49 - 51)

**6.3 Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ynghylch ymateb y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25**

(Tudalennau 52 - 77)

**6.4 Gohebiaeth oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

(Tudalennau 78 - 79)

## 7 Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub: trafod y dystiolaeth

(16:45-17:00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MA JH/0471/24

26 Chwefror 2024

Annwyl cydweithwyr,

**Ymchwiliad i ddull iechyd y cyhoedd o atal trais ar sail rhywedd: cyhoeddi adroddiad.**

Rwy'n ysgrifennu i ddarparu ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad eich Pwyllgor. Yn gyntaf, rwy'n croesawu'n fawr y ffaith eich bod yn rhoi sylw i'r pwnc hwn; fel yr ydych yn nodi'n gywir yn eich teitl, mae'n rhaid inni i gyd 'chwarae ein rhan', ac rwy'n croesawu byrdwn cyffredinol eich casgliadau sy'n cefnogi dull gweithredu lle bydd iechyd y cyhoedd yn mynd i'r afael ag achosion yn ogystal ag effeithiau trais ar sail rhywedd. Rwy'n cytuno â'ch casgliad mai 'Y cyd-destun hollbwysig ar gyfer trais ar sail rhywedd yw anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a normau diwylliannol lle mai dynion yw'r rhai sydd â'r pŵer, sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n arwain ar lefel gymdeithasol, yn y gweithle ac mewn teuluoedd'. Os ydym am fynd i'r afael â'r materion hyn, mae angen gweithredu fel cymdeithas gyfan, yn enwedig drwy ymgysylltu â dynion a bechgyn.
Dyma'r dull yr ydym wedi'i fabwysiadu yn ein Strategaeth Genedlaethol, yr ydym yn ei chyflawni drwy ein Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a Glasbrint Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Rwy'n ystyried eich adroddiad yn gymeradwyaeth i'n dull gweithredu cyffredinol, ond mae yna feysydd i'w gwella bob amser, lle dylem herio ein hunain i wneud yn well, ac mae eich argymhellion yn gyfraniad gwerthfawr yn hyn o beth. Rwyf am ymateb i bob un o'ch argymhellion yn eu tro.

***Argymhelliad 1.*** *Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu llywodraeth gyfan a gweithio gyda phartneriaid ar draws gwasanaethau cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynhwysiant yng Nghymru. Er mwyn helpu i gyflawni hyn, dylai greu 'prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau' sy'n asesu effaith pob penderfyniad polisi a chynnig deddfwriaethol ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau gyda'r nod o leihau gwahaniaethau rhwng y rhywiau. Dylid cyflwyno'r prawf cydraddoldeb rhwng y rhywiau cyn gynted ag y bo modd a dylid ei gymhwyso i holl benderfyniadau Llywodraeth Cymru o fis Rhagfyr 2024 ymlaen fan bellaf.*

**Derbyn:**
Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob polisi yn cyfrannu at gyflawni ein hamcanion drwy gynifer o ymyriadau â phosibl, yn enwedig yng nghyd-destun ein hegwyddorion o safbwynt iechyd y cyhoedd sy'n sylfaenol i'n dull gweithredu. Credaf mai defnyddio'r Asesiad Effaith Integredig yn effeithiol yw'r ffordd iawn o weithredu'n

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

effeithiol, er fy mod hefyd yn cydnabod bod lle i wella wrth gymhwyso'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Dyna pam fy mod wedi comisiynu adolygiad o'r asesiad o rywedd fel nodwedd warchodedig o fewn yr Asesiad Effaith Integredig. Credaf y gallwn weithredu egwyddor yr argymhelliad hwn a chyflawni ei bwrpas o fewn yr adolygiad a phroses asesu effaith integredig ddiwygiedig, ac y byddai hyn yn fwy effeithiol na chreu mecanwaith ychwanegol.

Mae Is-adran Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o'n dull o asesu effaith ar gydraddoldeb, a chaiff templed, canllaw a chefnogaeth newydd eu creu. Dechreuodd y gwaith hwn ar ddiwedd 2023 a bydd yn parhau drwy 2024, ochr yn ochr â'r adolygiad o'r broses asesu effaith integredig ehangach.

Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi ymgysylltu â swyddogion ar draws y sefydliad mewn tri gweithdy ac, yn dilyn hyn, bydd yn gweithio gydag arweinwyr cydraddoldeb adrannau i ddrafftio templed newydd, gan ystyried cwestiynau sy'n gysylltiedig â holl nodweddion gwarchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae rhyw yn nodwedd warchodedig ac mae'r asesiad o'r effaith ar rywedd yn cael ei ystyried yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Rydym yn canolbwyntio ar brif-ffrydio cydraddoldeb, sydd, gan weithio gyda'r tîm polisi rhywedd, yn cynnwys prif-ffrydio rhywedd.

Byddaf yn adrodd ar hynt yr adolygiad i'r Pwyllgor o fewn yr amserlen a nodir yn yr argymhelliad.

Fe wnaethoch hefyd awgrymu cam gweithredu pellach i gefnogi'r argymhelliad hwn er mwyn cyflawni'r amcan o weithredu ar lefel llywodraeth gyfan:

*Cam gweithredu 1: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob cynllun cydraddoldeb yn ymdrin â gwahaniaethau rhwng y rhywiau, yn herio stereoteipiau ac yn meithrin diwylliant o barch a chydraddoldeb. Dylai weithio gyda phartneriaid ar gamau manwl y bydd yn eu cymryd yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o faterion sy’n ymwneud â rhywedd, hyrwyddo menywod mewn rolau arweiniol, a gorfodi hawliau sy’n gwarantu cydraddoldeb a rhyddid rhag gwahaniaethu, aflonyddu a thrais. Dylid rhoi diweddariad am y camau hyn i’r Senedd yn y Cyfarfod Llawn o fewn chwe mis i ddadl y Senedd ar yr adroddiad hwn, ac yn flynyddol wedi hynny.*

Rwy'n hapus i adrodd ar y cam gweithredu hwn drwy'r Adroddiad Blynyddol ar drais a cham-drin a diweddariadau blynyddol Glasbrint Trais a Cham-drin. Rwyf hefyd am dynnu sylw at ein mecanwaith i sicrhau tryloywder ar gyfer y cynllun Rhywedd. Mae swyddogion yn darparu diweddariadau cynnydd, gan gynnwys adroddiad cynnydd blynyddol, i aelodau'r Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd. Mae'r Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd yn cynghori ar faterion cydraddoldeb ledled Cymru ac yn dwyn ynghyd randdeiliaid mewnol ac allanol sy'n gweithio ar faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb rhwng y rhywiau ledled Cymru. Mae'r aelodau, y cylch gorchwyl a'r cofnodion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Y Fforwm Cydraddoldeb Rhywedd

***Argymhelliad 2.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gofleidio ei rôl fel arloeswr ac arweinydd wrth gymhwyso dull iechyd y cyhoedd o ymdrin â thrais ar sail rhywedd, a hynny drwy:*

- *nodi cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth a chreu cyd-ddealltwriaeth gyffredin o'r dull a'r Glasbrint;*

- *cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio, a hynny drwy fynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi diweddariadau ar y cynnydd sydd wedi ei wneud ac adnoddau a ddefnyddir yn sylfaen i'r Glasbrint;*

- *parhau i flaenoriaethu gwaith gyda'r genhedlaeth nesaf drwy raglenni effeithiol wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc.*

**Derbyn:**
Ar ran holl bartneriaid y Glasbrint, mae Llywodraeth Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu cynllun cyfathrebu ynghylch trais a cham-drin, sy'n adeiladu ar ymgyrchoedd effeithiol fel Iawn, ac sydd hefyd yn nodi sut y bydd cynnydd y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'i wahanol ffrydiau gwaith yn cael ei rannu â rhanddeiliaid. Cyflwynwyd amlinelliad drafft o'r Cynllun Cyfathrebu i'r Bwrdd ym mis Ionawr, a oedd yn cynnwys cyfraniadau gan Plismona yng Nghymru a wnaeth ddadansoddiad o'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer y Glasbrint. Bydd y Cynllun Cyfathrebu a'r adnoddau i greu cyd-ddealltwriaeth gyffredin bellach o'r Glasbrint yn cael eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024.
O fewn ein cynllun ehangach, mae ymrwymiad i gyhoeddi adroddiadau cynnydd yn erbyn cynllun lefel uchel Glasbrint Trais a Cham-drin yn flynyddol. Yn ogystal, byddwn yn gwella gwe-dudalennau Llywodraeth Cymru ynghylch trais a cham-drin, gan gyhoeddi dogfennau eraill sy'n berthnasol ac yn rhoi gwybodaeth i'n rhanddeiliaid. Byddwn yn sicrhau bod y rhain yn cynnwys y diweddariadau cynnydd a chyfeiriadau at adnoddau, fel yr argymhellir gan y Pwyllgor.
Rydych wedi awgrymu cam gweithredu pellach i gefnogi'r argymhelliad hwn:

*Cam gweithredu 2: Er mwyn hybu tryloywder ymhellach, edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau gwaith a manylion aelodaeth pob un o ffrydiau gwaith y Glasbrint yn cael eu cyhoeddi, ac y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo i'w cyhoeddi. Byddwn yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2024 i gyd-fynd â diwedd y flwyddyn ariannol er mwyn ei dwyn i gyfrif am yr ymrwymiadau hyn.*

Rydym wedi cyhoeddi'r cynlluniau gweithredu lefel uchel. Rwy'n hapus i ymrwymo ymhellach i gyhoeddi'r cylch gorchwyl, sy'n cynnwys aelodaeth, ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth a phob un o'i ffrydiau gwaith. Byddwn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn copi o'r wybodaeth a gyhoeddir pan fydd ar gael ac o fewn yr amserlen hon.

***Argymhelliad 3.*** *Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd data, tystiolaeth a dadansoddiadau yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gwerthuso polisïau sy'n mynd i'r afael â chroestoriadedd trais ar sail rhywedd. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod eglurder i'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anableddau ynghylch eu blaenoriaethau, a chytuno ar amserlenni ar gyfer cwblhau cerrig milltir allweddol erbyn diwedd Ebrill 2024. Dylai'r ymateb gynnwys manylion am:*

- *y dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith o sefydlu data gwaelodlin a chrynodeb o'r dangosyddion gwaelodlin y mae'n bwriadu eu defnyddio;*

- *y partneriaid y bydd yn gweithio gyda nhw i gasglu data gwaelodlin a'r dyddiad targed ar gyfer prif ffrydio ymdrechion o ran casglu data; a*

- *pryd y mae'n rhagweld y bydd y data a gesglir gan yr Unedau yn gallu cyfrannu'n ystyrlon at ddatblygu a gwerthuso polisi.*

**Derbyn:**
Mae swyddogion Polisi a Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi o dimau Trais a Cham-drin a Chydraddoldeb wedi cyfarfod i sicrhau bod synergedd a chydweithio ar draws y ddau faes polisi mewn perthynas â mynd i'r afael â chroestoriadedd trais ar sail rhywedd. Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch ar lefel strategol a chydweithio ar draws

agendâu ymchwil. Mae gwaith ar y gweill i nodi ffyrdd o sicrhau bod profiadau pobl sy'n agored i niwed mewn mwy nag un ffordd yn cael eu cofnodi ac yn llywio datblygiad polisi. Mae cynlluniau dadansoddol yn cael eu datblygu i ddiwallu'r anghenion ehangach o ran tystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys nodi arferion gorau byd-eang ac adolygu'r llwybrau cymorth ar gyfer goroeswyr trais a cham-drin sy'n anabl. Mae Llywodraeth Cymru yn helpu ffrydiau'r Glasbrint i ymgorffori ymwybyddiaeth o bwysigrwydd croestoriadedd ym mhob agwedd ar drais ar sail rhywedd, ac o fewn y gweithgarwch hwn, y gallu i fonitro a gwerthuso'r broses.
Mae grŵp gorchwyl a gorffen wedi'i sefydlu i adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2019 mewn perthynas â dangosyddion cenedlaethol trais a cham-drin, a oedd wedi'i ohirio oherwydd y pandemig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o dimau polisi, y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Cynghorwyr Cenedlaethol ar gyfer trais a cham-drin wrthi'n adolygu'r dangosyddion a fabwysiadwyd yn 2019.

Mae ymarfer mapio ar y gweill i nodi'r ffynonellau data sydd fwyaf addas i lywio'r dangosyddion unigol. Er bod y gwaith hwn yn dod yn ei flaen yn dda, mae nifer o heriau o ran defnyddio data'r DU sydd wedi'u dadgyfuno i lefel genedlaethol. Y bwriad yw y bydd yr ymarfer mapio a'r set ddrafft o ddangosyddion cenedlaethol, ynghyd â'r data cysylltiedig, yn creu llwyfan effeithiol ar gyfer cydweithio â rhanddeiliaid eraill.

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn gweithio'n agos gyda'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ac maent eisoes wedi bod yn rhannu gwybodaeth ynghylch lle gallai'r gwaith groestorri. Er enghraifft, y gwaith parhaus o fapio dangosyddion a data ar gyfer fframwaith gwerthuso Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol er mwyn dod â'r fframweithiau dangosyddion presennol ynghyd o amryw o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru.

Rydych wedi awgrymu cam gweithredu pellach i gefnogi'r argymhelliad hwn:

*Cam gweithredu 3: Dylai Llywodraeth Cymru bennu'r amserlenni ar gyfer creu'r Storfa Ganolog a sut y bydd y storfa yn cefnogi cydweithredu, rhannu gwybodaeth ac yn hwyluso ymchwil. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru nodi cyfleoedd ar gyfer ymchwilio i ymyriadau sy'n ymgysylltu â dynion a bechgyn yn benodol er mwyn ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth ar y mater hwn.*

Bu'n rhaid diwygio'r cynllun i greu storfa oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau a phwysigrwydd neilltuo'r adnoddau sydd ar gael ar wasanaethau rheng flaen yn ystod argyfwng costau byw. Roedd y cynlluniau gwreiddiol yn cynnwys sefydliad â staff, ond mae'r gwaith i ddatblygu'r storfa yn canolbwyntio bellach ar greu rhwydweithiau 'rhithiol' ar gyfer y capasiti rheoli gwybodaeth ar draws y sector. Disgwylir i'r gwaith hwn gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn galendr hon. Yn y tymor byrrach rydym wedi cydnabod yr angen i gefnogi anghenion tystiolaeth y Glasbrint, ac rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu a gweithredu cynllun tystiolaeth ar draws strategaeth genedlaethol trais a cham-drin. Dylai'r gwaith cychwynnol hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth eleni. At ei gilydd, mae'r dull diwygiedig hwn sy'n wahanol i'r storfa a ragwelwyd yn flaenorol, yn ddarpariaeth gadarn, a fydd yn elwa o gael ei ymgorffori yng ngwaith ehangach yr Unedau Tystiolaeth.

***Argymhelliad 4.*** *Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i sicrhau bod gwasanaethau therapi chwim penodol ac arbenigol ar gael i bob baban, plentyn a pherson ifanc sy'n profi trais ar sail rhywedd neu sy'n dyst i drais o'r fath, a dylai fanylu ar y camau hyn yn ei hymateb i'r adroddiad hwn. Dylai hyn gynnwys:*

- *manylion am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gorfodi hawliau babanod, plant a phobl ifanc sydd wedi profi trais neu sydd wedi bod yn dyst i drais i gael mynediad at wasanaethau therapi penodol ac arbenigol drwy lwybr carlam;*

- *adolygu'r gwasanaethau therapi sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd wedi profi trais neu sydd wedi bod yn dyst i drais, a pha mor dda y mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hintegreiddio i'r system iechyd ac addysg ehangach.*

*Dylai'r gwaith hwn gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol (gan gynnwys yr heddlu, CAFCASS a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol), a rhaid bwrw ymlaen â'r gwaith ar fyrder gyda diweddariad yn cael ei roi i'r Senedd yn nhymor yr hydref 2024.*

**Derbyn:**

Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i Rhaglen i Drawsnewid Gwasanaethau Plant, yn datblygu Fframwaith Ymarfer Cenedlaethol. Y fframwaith hwn fydd y gyfres gyntaf o safonau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, a bydd yn ategu gweithdrefnau eraill a luniwyd ar lefel Cymru gyfan, fel gweithdrefnau diogelu Cymru gyfan. Ei nod yw cryfhau a chefnogi ymhellach y gwaith o droi bwriad polisi yn arfer dyddiol. Datblygwyd y Fframwaith drwy weithio gyda'n partneriaid i adolygu a chryfhau ansawdd ac arferion i wella'r ffordd y darperir gwasanaethau. Bydd y safonau yn adlewyrchu dull amlasiantaethol, gan ein bod yn cydnabod bod angen, yn aml iawn, gefnogaeth nifer o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'i gilydd fel tîm, ar blant sydd angen eu helpu a'u hamddiffyn. Bydd y safonau yn disgrifio'n well sut mae gwasanaethau i blant yn gweithio, gan sbarduno mwy o dryloywder. Mae gwaith ar y gweill i gwblhau'n derfynol y 6 safon newydd gyntaf erbyn diwedd Mawrth 2024, a chaiff y gweddill eu cydlunio erbyn diwedd 2024.

Y chwe safon newydd gyntaf fydd:

- Y safon ymarfer sy'n cynnwys y plentyn;
- Y safon oedolion y gellir ymddiried ynddynt;
- Llygaid ar y plentyn: y safon diogelu plant;
- Y safon plant a phobl ifanc sydd ar goll;
- Y safon gofal parhaus;
- Y safon llwythi gwaith y gellir ymdopi â nhw.

Yn ogystal, rwyf am gydnabod ei bod yn debygol bod yna fylchau yn y gefnogaeth i blant a phobl ifanc o fewn gwasanaethau cymorth i oroeswyr eu hunain. Rwy'n hapus i ymrwymo i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth yn y maes hwn a rhoi adroddiad i'r Senedd ar y canfyddiadau cynnar o fewn yr amserlen a nodwyd.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles newydd ar gyfer pob oedran ynghyd â Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio. Mae'r strategaethau hyn yn nodi ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a lles, ac ar gyfer atal hunanladdiad a hunan-niweidio. Un o flaenoriaethau sylfaenol y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles newydd yw darparu system gymorth gysylltiedig ar draws iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector ac yn ehangach, lle gall pobl gael gafael ar y gwasanaeth cywir, ar yr adeg gywir, ac yn y lle cywir.

Bydd y gofal a'r cymorth yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gweithredu ar sail tosturi ac yn rhoi'r ffocws ar adferiad, gyda phwyslais ar wella ansawdd, diogelwch a mynediad. Mae pobl sydd wedi eu heffeithio gan drais, cam-drin domestig, trais rhywiol ac ymosodiad yn cael eu nodi yn y Strategaeth Iechyd Meddwl a Lles fel grŵp nad oes gwasanaethau digonol ar eu cyfer. Yn ystod yr ymgynghoriad, eir ati i ymgysylltu'n benodol â'r rhai sydd â phrofiad personol.

Rydych wedi awgrymu cam gweithredu pellach i gefnogi'r argymhelliad hwn:

*Cam gweithredu 4: Nodwyd rhai o'r heriau penodol a wynebir gan fenywod mudol yn ein hadroddiad: 'Trais ar sail rhywedd: Anghenion menywod mudol'. Byddwn yn gofyn i argymhellion a chasgliadau'r adroddiad hwnnw gael eu diweddaru yng Ngwanwyn 2024.*

Rwy'n hapus i ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn yr amserlen a nodwyd.

***Argymhelliad 5.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Brif Arolygydd Estyn dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru gynnal adolygiad thematig cenedlaethol o berthnasoedd iach mewn ysgolion. Dylid cynnwys yr adolygiad yn y rhaglen adolygiadau thematig nesaf sydd ar gael, a dylid ei gwblhau o fewn yr amserlenni arferol.*
*Dylai'r adolygiad:*

- *cynnwys sylwadau ac argymhellion ar ddigonolrwydd adnoddau a hyfforddiant ar gyfer addysgu plant am gydberthnasoedd iach;*
- *ceisio cadarnhau a oes unrhyw gysylltiad rhwng diffyg darpariaeth a lefelau uwch o amddifadedd; a*
- *nodi'r arfer gorau o ran 'dulliau ysgol gyfan' wrth atal trais ar sail rhywedd.*

**Derbyn:**
Cynhaliwyd yr adolygiad thematig diwethaf ynghylch perthnasoedd iach yn 2017. A'r cwricwlwm newydd yn gwneud addysg am berthnasoedd iach yn orfodol fel rhan o addysg cydberthynas a rhywioldeb, byddai hwn yn gyfle da i adolygu'r arferion a'u heffaith yn gynnar yn y broses weithredu. Mae sgyrsiau eisoes wedi'u cynnal gyda'r Prif Arolygydd sy'n hapus i ymrwymo i adolygiad o'r math a nodwyd gan y Pwyllgor.
Yn ogystal, mae'r Cynllun Aflonyddu Rhywiol rhwng Cyfoedion, a gyhoeddwyd ar 24 Ionawr 2024, yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn eu cymryd i atal ac ymateb ynghylch aflonyddu rhywiol ac ymddygiad rhywiol niweidiol rhwng cyfoedion mewn lleoliadau addysg. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu a'i fireinio drwy ymgysylltu ag ystod o bartneriaid ar draws sectorau. Mae hyn yn cynnwys addysg, llywodraeth leol, yr Heddlu a'r trydydd sector.
Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r sgyrsiau hyn wrth inni fynd ati i weithredu'r Cynllun. Yr ysbryd hwn o bartneriaeth fydd yn sicrhau ein bod yn gallu darparu amgylchedd dysgu diogel i bob un o'n dysgwyr.

***Argymhelliad 6.*** *Rhaid i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar unwaith i sicrhau bod athrawon yn cael eu hatgoffa o'r ddyletswydd orfodol sydd arnynt i adrodd ar achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod. Yn y tymor hwy, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn i sefydlu trefniadau monitro a mesurau diogelu i roi sicrwydd bod athrawon yn ymwybodol o'u dyletswyddau cyfreithiol o ran atal trais ar sail rhywedd. Dylai'r gwaith i sefydlu'r mesurau monitro hyn gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2024.*
**Derbyn:**
Byddwn yn ysgrifennu at ysgolion i ailbwysleisio pwysigrwydd rhoi gwybod am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod.
Bydd arolygwyr Estyn yn parhau i werthuso a yw holl staff ysgolion yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i amddiffyn disgyblion, gan gynnwys dyletswyddau 'PREVENT'. Mae'r canllawiau arolygu a'r fframwaith arolygu cryfach hefyd yn cwmpasu adolygiad o'r cynnig dysgu proffesiynol mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, i asesu pa mor dda y mae athrawon yn cael eu cefnogi i ymateb i faterion sy'n ymwneud â thrais ar sail rhywedd ac anffurfio organau cenhedlu benywod. Mae Estyn hefyd yn cyflwyno hyfforddiant i'r gweithlu arolygu cyfan, er mwyn sicrhau bod gan bob arolygydd y sgiliau a'r wybodaeth i ymateb i faterion diogelu.

Rydych wedi awgrymu cam gweithredu pellach i gefnogi'r argymhelliad hwn:

*Cam gweithredu 5: Dylai'r Gweinidog Addysg ysgrifennu at sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i'w hatgoffa o ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru a chyfarwyddo'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i gydweithio â'r sector i gytuno ar gamau gweithredu sy'n cryfhau dulliau ataliol ar draws y sector.*

Rwyf wedi gofyn i'r Gweinidog Addysg ysgrifennu yn y ffordd a awgrymir.

***Argymhelliad 7.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i'w Phanel Cynghori ar Gadernid Digidol sydd newydd ei sefydlu gytuno ar ei flaenoriaethau a'i flaenraglen waith yn gyflym a chyhoeddi'r rhain erbyn diwedd mis Ebrill 2024. Dylai'r Panel egluro pa feysydd y bydd yn eu blaenoriaethu, amserlenni a ragwelir ar gyfer trefn ei flaenraglen waith a sut y bydd yn ystyried meysydd sylweddol o bolisi a deddfwriaeth nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â rheoleiddio digidol a rheoleiddio ar-lein.*

**Derbyn mewn egwyddor:**
Er fy mod yn gyfforddus iawn â phwrpas yr argymhelliad hwn, nid wyf yn credu y gallwn orfodi'r Panel fel hyn. Mae pob aelod o'r Panel Cynghori o dan 16 oed. Nid ydym yn rhagweld y bydd y panel yn gweithio yn y dull strategol a nodwyd, ac ni fyddem yn disgwyl iddo sefydlu rhaglen waith fel hyn.

Fodd bynnag, mae gennym raglen waith yn y maes hwn sy'n mynd i'r afael â'r materion y mae'r Pwyllgor yn eu codi.

O safbwynt Cadernid Digidol mewn Addysg, mae ein gwybodaeth, ein canllawiau a'n cefnogaeth ar gam-drin drwy ddelweddau a blacmel rhywiol ar-lein yn canolbwyntio ar ddysgwyr ifanc, ymarferwyr, a rhieni a gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn credu'n gryf bod maes diogelu yn gyfrifoldeb i bawb, ac mae wedi galw ar blatfformau'r cyfryngau cymdeithasol i gydnabod eu cyfrifoldeb a'u dyletswydd gofal hwythau ar ran defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol o bob oedran.

Mae'n hanfodol ein bod yn dal platfformau cyfryngau cymdeithasol i gyfrif, ac mae Llywodraeth Cymru yn gwbl gefnogol i gyflwyno safonau clir a chyson ar draws platfformau cyfryngau cymdeithasol i wneud defnyddwyr yn fwy diogel.

Mae'r Internet Watch Foundation yn nodi bod mwy o achosion o flacmel rhywiol wedi dod i'w sylw yn ystod 6 mis cyntaf 2023 nag yn 2022 ar ei hyd. Pobl ifanc yn eu harddegau canol a hwyr (14 – 17 oed) yw'r rhai sydd yn y perygl mwyaf, ac mae'n debyg mai bechgyn sy'n cael eu targedu amlaf.

Rydym yn croesawu'r bwriadau a nodir ym Mesur Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU (a dderbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 26 Hydref 2023) i geisio mynd i'r afael â deunydd anghyfreithlon a niweidiol ar-lein, gyda'r nod o atal niwed i unigolion yn y Deyrnas Unedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid ledled y DU a llywodraethau eraill er mwyn cymryd camau gyda'i gilydd i gyflawni ein nodau cyffredin i wella darpariaeth, polisi ac arferion o ran diogelwch ar-lein.

Mae Reporting Harmful Content yn ganolfan adrodd genedlaethol i helpu pawb i roi gwybod am ddeunydd niweidiol ar-lein.

Ar dudalennau Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb, mae cyngor ac arweiniad o bob math i rieni a gofalwyr, plant a phobl ifanc, ac ymarferwyr:

Problemau a phryderon ar-lein: delwedd corff ar-lein a hunan-barch - Hwb (llyw.cymru)

Problemau a phryderon ar-lein: aflonyddu rhywiol ar-lein - Hwb (llyw.cymru)

Problemau a phryderon ar-lein: rhannu lluniau noeth - Hwb (llyw.cymru)

Fis diwethaf, cyhoeddwyd erthygl "Views from the Experts" gan yr Internet Watch Foundation ar flacmel rhywiol a allai fod yn ddefnyddiol; Blacmel rhywiol - Hwb (llyw.cymru)

***Argymhelliad 8.*** *Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff iechyd i wella gallu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i adnabod arwyddion trais ar sail rhywedd, ac i ymateb i'r arwyddion hynny. Er mwyn gweithredu'r argymhelliad hwn, dylai Llywodraeth Cymru:*

- *ymestyn y ddyletswydd Gofyn a Gweithredu i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill, a chyhoeddi canllawiau diwygiedig i feddygon teulu fel man cychwyn;*
- *olrhain ac adrodd yn gyhoeddus ar ystadegau ynglŷn â chyfranogiad staff mewn rhaglenni hyfforddiant;*
- *coladu a chyhoeddi ystadegau ynglŷn â phrydlondeb amseroedd ymateb (rhwng datgelu'r sefyllfa a chael eu gweld gan arbenigwr) o fewn llwybrau atgyfeirio Gofyn a Gweithredu;*
- *amlinellu'n glir y fethodoleg ar gyfer mesur effaith rhaglenni hyfforddiant.*

*Dylid cwblhau'r gwaith hwn erbyn mis Mawrth 2025.*

**Derbyn:**

Wrth dderbyn yr argymhelliad hwn, dylwn bwysleisio nad yw Gofyn a Gweithredu yn deillio o ddyletswydd. Yn hytrach, mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn sefydlu'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ac i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol lunio strategaethau lleol. Ffrwyth y canllawiau hyn yw Gofyn a Gweithredu, a gall y strategaethau lleol hynny lywio sut y caiff y rhaglen ei rhoi ar waith. Mae ffrwd waith Comisiynu Cynaliadwy Ar Draws Ein Systemau, un o ffrydiau gwaith ein Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol, yn adolygu'r canllawiau a'r trefniadau rhanbarthol presennol fel rhan o'i chynllun gwaith. Gall yr adolygiad hwn a'r canllawiau diwygiedig a fydd yn dilyn ystyried egwyddorion yr argymhelliad hwn i sicrhau bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a meddygon teulu yn manteisio'n llawn ar yr hyfforddiant.

Yn dilyn yr adolygiad o Gofyn a Gweithredu, a gwblhawyd yn 2022, aethom ati o fis Ionawr 2023 i ymestyn y cyfle i ystod ehangach o weithwyr proffesiynol ym maes trais a cham-drin, nad ydynt yn dod o dan y rolau statudol, i fanteisio ar hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Wrth gwrs, roedd y cyrff statudol a oedd eisoes wedi'u nodi yn cynnwys Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Canfu adolygiad 2022 fod rhaglen Gofyn a Gweithredu 'yn cael ei gweld fel un bwysig a gwerthfawr sy'n cael effaith ledled Cymru ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan.' Rwy'n cydnabod gwerth cyhoeddi data ychwanegol a fyddai'n caniatáu craffu ac atebolrwydd pellach ynghylch effeithiolrwydd y rhaglen. Rwy'n hapus i weld hyn yn cael sylw drwy'r gwaith sy'n parhau i ddatblygu'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, ac rwy'n cydnabod yr amserlen a argymhellir gan y Pwyllgor.

***Argymhelliad 9.*** *Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu seithfed ffrwd waith o fewn y Glasbrint Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a dylai'r seithfed ffrwd honno wneud argymhellion uchelgeisiol ar sut y gall busnesau a sefydliadau greu gweithleoedd sy'n fwy diogel a chyfartal. Dylai'r ffrwd waith gynnwys gwybodaeth ymarferol am y polisïau, y gweithdrefnau a'r hyfforddiant sydd eu hangen i gefnogi'r nod hwn. Dylai'r grŵp weithredu mewn ysbryd o bartneriaeth gymdeithasol gyda chynrychiolaeth o blith cyflogwyr ac undebau llafur.*

**Derbyn mewn egwyddor:**

Bydd y Pwyllgor yn falch o nodi'r cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud yn y maes hwn. Er fy mod yn hapus i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y Pwyllgor, mae gennym eisoes fecanwaith a all fynd i'r afael â nhw yn llwyddiannus fel rhan o'n ffrwd waith Aflonyddu yn y Gweithle sydd wedi'i hen sefydlu, ac sy'n cael ei chydgadeirio gan Brif Uwcharolygydd o

Heddlu Gwent, ar ran Plismona yng Nghymru, ac Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru. Ni fyddwn am ychwanegu at y baich cyffredinol ar amser pobl mewn perthynas â'n Glasbrint, gan ddrysu briffiau o bosibl. Byddaf felly yn cyfeirio canfyddiadau a sylwadau'r Pwyllgor at y ffrwd waith sy'n bodoli eisoes i'w hystyried, i gefnogi'r amcanion a nodir yn eich adroddiad.

***Argymhelliad 10.*** *Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ariannu ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus ledled y wlad gyda model rôl gwrywaidd enwog iawn a all ysbrydoli dynion a bechgyn eraill i wneud safiad yn erbyn trais a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau cadarnhaol. Mae'n bwysig sicrhau bod y person hwn yn wybodus am y mater ac yn cael hyfforddiant priodol i gyfathrebu ac eirioli dros newid yn effeithiol. Dylid cynnal gwerthusiad o'r effaith ar ddiwedd yr ymgyrch.*

**Derbyn:**
Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r math a nodir fel rhan o'n strategaeth i ymgysylltu â dynion a bechgyn, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, casineb a dirmyg at fenywod, a diwylliant 'gwrywdod gwenwynig' sy'n cael ei hyrwyddo mewn rhai cylchoedd, ond nad yw'n cynrychioli pob dyn. Rydym yn ymgysylltu â Chymdeithas Bêl-droed Cymru ac Undeb Rygbi Cymru i sicrhau bod chwaraeon yn chwarae eu rhan yn y dull gweithredu ar lefel cymdeithas gyfan yr ydym yn ymgymryd ag ef. Mae'r canfyddiadau diweddar o ragfarn ar sail rhyw a amlygwyd ar lefel sefydliadol yn Undeb Rygbi Cymru, er yn destun pryder mawr, yn gyfle i droi hyn ar ei ben, ac mae ymrwymiad yr Undeb i wneud hyn yn amlwg.  Byddwn yn manteisio ar yr ymrwymiad hwnnw i wneud cyfraniad sy'n ymestyn y tu hwnt i Rygbi ei hun.
Fodd bynnag, yn ein gwaith gydag arbenigwyr cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol fel Cowshed, y mae Llywodraeth Cymru mewn contract â nhw i gyflawni ymgyrchoedd o'r math hwn, rydym wedi nodi, wrth ystyried pwy sydd â dylanwad ar bobl ifanc, bod cryn bwys i fodelau rôl o'r tu allan i fyd chwaraeon traddodiadol, (e.e. gemau fideo, crefft a diwydiant, cerddoriaeth). Oherwydd hyn, mae'n ddigon posibl y bydd ein cylch nesaf o ymgyrchoedd yn canolbwyntio ar feysydd eraill, wrth inni anelu i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl.
Fel enghraifft o'n dull gweithredu, rwyf am dynnu eich sylw at ymgyrch Iawn yr wyf yn ei hystyried yn llwyddiant sylweddol. Mae'r ymgyrch hon, sy'n gweithio gyda dynion a bechgyn ifanc mewn nifer o leoliadau, wedi profi i fod yn bellgyrhaeddol. Mae'r gwerthusiad a wnaed hyd yma wedi dangos bod y prif negeseuon a deunydd wedi cyrraedd cyfran enfawr o'r ddemograffeg darged yn ystod cyfnod yr ymgyrch (327,000 o ddynion 18-34 oed yng Nghymru, rhwng Gorffennaf a Medi 2023). Cyflawnodd yr ymgyrch hyn drwy dargedu'r ddemograffeg dan sylw ar sail diddordebau, lleoliadau, iaith, addysg a phroffesiynau. Profodd deunydd a oedd yn canolbwyntio ar feysydd diddordeb penodol iawn, neu a oedd yn hawdd uniaethu â nhw, yn hynod effeithiol ac yn bwynt mynediad mwy derbyniol i bwnc sy'n aml yn anodd ei drafod.
Byddwn yn parhau i dargedu a gwerthuso ein gwaith ymgyrchu yn y ffordd y mae'r Pwyllgor yn awgrymu, gan ddibynnu ar yr arbenigedd ymarferol iawn y mae arbenigwyr yn ei gynnig i'n dull gweithredu.

***Argymhelliad 11.*** *Dylai Llywodraeth Cymru, drwy ei ffrwd waith i gyflawnwyr, gynnal adolygiad cyflym o'r rhaglenni i gyflawnwyr sydd wedi eu llunio i atal trais ar sail rhywedd, ac sydd ar gael ledled Cymru. Dylai'r adolygiad anelu at roi sicrwydd i ddioddefwyr ac eraill bod pob rhaglen yn ystyried eu diogelwch ac yn gallu dangos tystiolaeth o adsefydlu effeithiol. Dylai hefyd ystyried gwahanol ffactorau diwylliannol a chyd-destunol a all ddylanwadu ar effeithiolrwydd rhaglenni i gyflawnwyr. Dylid cwblhau'r adolygiad cyflym erbyn mis Mehefin 2024.*
**Derbyn:**
Rwy'n croesawu'r argymhelliad hwn ac yn rhannu awydd y Pwyllgor i wella ein hymateb i gyflawnwyr fel ffordd o leihau trais ar sail rhywedd. Rydym eisoes wedi dechrau ar ymarfer sy'n cyd-fynd â phwrpas yr argymhelliad hwn, drwy Ffrwd Waith Mynd i'r Afael â Chyflawni Trais ein Glasbrint. Lansiwyd arolwg ledled Cymru ym mis Rhagfyr 2023, a ddaeth i ben ar

Chwefror 9 2024. Casglwyd gwybodaeth am yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu ledled Cymru ar hyn o bryd ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trais. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am feini prawf cymhwysedd, lefelau risg, achrediad, diogelwch dioddefwyr a'r math o fodel gweithredu.
Bydd canfyddiadau'r arolwg, a fydd yn nodi'r bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir, a'r tueddiadau thematig, yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2025. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy Gynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Chyflawni Trais a ffrwd waith Comisiynu Cynaliadwy Ar Draws Ein Systemau, i sbarduno a chefnogi gwasanaethau a gomisiynir sy'n ymateb i dystiolaeth ac anghenion, a fydd yn cydnabod anghenion diwylliannol penodol wrth i fodel y Glasbrint fynd rhagddo. Tynnwyd sylw aelodau'r ffrwd waith at yr argymhelliad hwn er mwyn sicrhau eu cefnogaeth i'w gyflawni. Bydd diweddariad yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol y Glasbrint.

***Argymhelliad 12.*** *Dylai pob Aelod o'r Senedd ymrwymo i gwblhau hyfforddiant ar atal trais ar sail rhywedd erbyn diwedd 2024. Yn ogystal â'r ymrwymiad hwn, dylid annog staff cymorth Aelodau'r Senedd a staff Comisiwn y Senedd drwy'r sianeli priodol i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.*
*Dylid ceisio'r hyfforddiant hwn gan ddarparwr arfer gorau, a dylid ceisio mynd i'r afael â normau diwylliannol ac arferion sy'n golygu bod trais ar sail rhywedd yn dal i ddigwydd, gan barchu amrywiaeth ddiwylliannol ar yr un pryd.*

Er fy mod yn gefnogol iawn i'r egwyddor o sicrhau bod gan bawb ddealltwriaeth o drais ar sail rhywedd, gan fod yn rhaid inni i gyd 'chwarae ein rhan', byddai wrth gwrs yn amhriodol i Lywodraeth Cymru ymateb ar ran y Senedd yn hyn o beth. Rwy'n cymryd eich bod wedi cyfeirio'r argymhelliad hwn at yr awdurdod priodol.

*Cam gweithredu 8: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag awdurdodau lleol a/neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i sicrhau bod gan gynghorwyr lleol fynediad i hyfforddiant ac adnoddau tebyg o ran delio â thrais ar sail rhywedd a dylai adrodd yn ôl ar hynny erbyn diwedd 2024.*

Rwy'n hapus i ymrwymo i drafod y mater gyda CLILC, gyda'r bwriad o gyflawni'r cam gweithredu hwn.

Nodwyd dau gam gweithredu arall yn eich adroddiad.

*Cam gweithredu 6: Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau ei rhaglen ymyrraeth 'Paid Cadw'n Dawel' cyn gynted â phosibl ar ôl ei chwblhau.*

Rwy'n hapus i ymrwymo i'r cam gweithredu hwn.

*a*

*Cam gweithredu 7: Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl ar ei gwaith gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ystyried a oes angen dull penodol o ddelio â chamddefnyddio alcohol, ac a yw'n bwriadu comisiynu unrhyw waith ymchwil neu gasglu data i ddeall yn well y berthynas rhwng alcohol a thrais ar sail rhywedd o ystyried y bwlch yn y sylfaen dystiolaeth. Dylid darparu diweddariad i'r Senedd yn nhymor yr hydref 2024.*

Hoffwn gyfeirio'r Pwyllgor at y Fframwaith Arfer Da ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol a Chamddefnyddio Sylweddau [https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/fframwaith-arferion-da-mewn-perthynas-a-thrais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-trais-rhywiol-a-chamddefnyddio-sylweddau.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/fframwaith-arferion-da-mewn-perthynas-a-thrais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-trais-rhywiol-a-chamddefnyddio-sylweddau.pdf) a gyhoeddwyd yn 2018, ond rwy'n hapus i sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn trafod hyn ymhellach gyda

Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac ystyried pa gamau sydd eu hangen, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor maes o law.

Rwy'n gobeithio bod yr ymateb hwn yn dangos fy ymrwymiad i weithio'n effeithiol gydag eraill, ac fel y dywedais wrth y Pwyllgor yn ystod eich sesiynau tystiolaeth, byddwn yn dysgu gyda'n gilydd. Unwaith eto, rwyf am ddiolch ichi am eich cyfraniad pwysig i'n cyd-ymdrech i sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn Ewrop i fod yn fenyw neu'n ferch.

**Cofion**

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

29 Chwefror 2024

Annwyl Jenny,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Chwefror ynglŷn â'r Uwchgynhadledd Cyfiawnder Ieuenctid ar Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu, a gynhaliwyd ar 24 Ionawr 2024. Er mai cyfrifoldeb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y system gyfiawnder, fi sy'n ymateb gan mai fy swyddogion i a arweiniodd ar y gwaith o drefnu'r uwchgynhadledd a nodi ei chanlyniadau, er i swyddogion fy mhortffolio i a phortffolio'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fynychu'r uwchgynhadledd fel rhan o ddull gweithredu cydgysylltiedig.

Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd yn rhithiol, a mynychwyd y digwyddiad gan dros 40 o gyfranogwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr o Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Prifysgol Efrog Sant Ioan, arweinwyr polisi o adrannau ar draws Llywodraeth Cymru, cyfiawnder ieuenctid, iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar ac eraill.

Gwrandawodd y cyfranogwyr ar gyflwyniadau gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Milton Keynes, a hefyd cyflwyniad am 'The Box', sef adnodd e-ddysgu ar-lein am ddim sy'n rhoi'r gallu i weithwyr proffesiynol yn y system gyfiawnder adnabod problemau cyfathrebu, a chael y sgiliau i weithio gydag unigolion sydd â phroblemau o'r fath.

Wedyn, cafwyd trafodaeth ar y rhwystrau/dulliau lliniaru a'r adnoddau/cyfleoedd sy'n bodoli yn y maes, gan nodi llwybrau posibl ar gyfer gwella o dan y system bresennol. Yn ei sylwadau cloi, dywedodd Pippa Cotterill, Pennaeth Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, fod yr uwchgynhadledd wedi bod yn un gadarnhaol dros ben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith y bydd swyddogion ar draws y Llywodraeth wedi ystyried yr holl wybodaeth a syniadau a rannwyd, a'u bod wedi diffinio a chynllunio ffordd fanylach ymlaen, bydd y Gweinidogion perthnasol yn cael cyngor i'w helpu i wneud penderfyniadau ar y ffordd honno.  Byddaf yn parhau i roi diweddariadau ar hynt y gwaith hwn i'r Aelodau.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth ichi.

Yn gywir

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
—
**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r

9 Chwefror 2024

Annwyl Jane,

**Uwchgynhadledd Cyfiawnder Ieuenctid – Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu**

Roeddwn yn falch o glywed bod swyddogion o Lywodraeth Cymru wedi bod yn Uwchgynhadledd Cyfiawnder Ieuenctid ar Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar 24 Ionawr 2024.

Wrth edrych ar agenda'r uwchgynhadledd, mae'n ymddangos bod Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid y DU yn ogystal â chynrychiolwyr o bob tîm cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru wedi gallu trafod materion gyda swyddogion iechyd, sy'n galonogol iawn.

O ystyried bod yr uwchgynhadledd wedi'i chynnal o ganlyniad i adroddiad ein Pwyllgor, byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu gyda'r Pwyllgor unrhyw ganlyniadau o'r uwchgynhadledd ac unrhyw gamau nesaf y bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn eu cymryd yn dilyn yr uwchgynhadledd gan gynnwys amserlenni.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Welsh Parliament

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Jane Dodds**
Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru
—
Member of the Senedd for
Mid and West Wales

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565
@janedoddswld
@DoddsJane
/JaneDoddsWLD

**Chair of the Equality and Social Justice Committee**
**Jenny Rathbone MS**
**Welsh Parliament**
**Cardiff Bay**
**Cardiff**
**CF99 1SN**

**Dyddiad | Date: 04.03.2024**
**Pwnc | Subject: New Ministerial Role for Babies, Children and Young People.**

Annwyl Cadeirydd,

I would like to reiterate the need for a dedicated Minister for Babies, Children and Young People as outlined by the Equality and Social Justice Committee in their "Calling time on child poverty: how Wales can do better" report.

A portfolio specifically focusing on babies, children and young people is crucial to reducing child poverty in Wales. The evidence is clear – in countries where similar roles exist, child poverty is considerably lower. Scotland, New Zealand, Finland, Ireland and Australia all have a Minister focusing specifically  babies, children and young people, and the poverty rates in these countries is much lower than it is here in Wales. The child poverty rates in these countries are no higher than 15%.

Here in Wales, it is 28%. Here in Wales, we don't yet have a Minister dedicated to babies, children and young people. As I mentioned earlier this month, when an issue as important as child poverty is spread across many ministerial roles it obscures accountability and failures, like the 28% of children in poverty who live in Wales, happen time and time again.

**Jane Dodds**
Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru
—
Member of the Senedd for
Mid and West Wales

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565
@janedoddswld
@DoddsJane
/JaneDoddsWLD

I therefore reiterate the call for the creation of a new Ministerial post dedicated solely to focusing on babies, children and young people. This role is needed to provide ultimate accountability, visible leadership and oversight on issues affecting children. This change is not just my personal recommendation - it is supported and recommended by leading organizations in Wales that work with children and families. During my role as Chair of the Cross-Party Group on Children and Families, the following groups voiced their full endorsement for establishing this new position:

Barnardo's Cymru

Children in Wales

NSPCC Cymru

NYAS Cymru

Play Wales

Royal College of Speech and Language Therapists

Parent Infant Foundation

The Fostering Network

TGP Cymru

These organisations work directly with children, families, and practitioners on the ground. They know the challenges that children and families are facing first hand, and their support is crucial. If they are calling for a Minister to address the needs of children, then we must listen.

I hope that highlighting the support of these key organizations will lead to reconsideration of the recommendation for a Minister for Babies, Children and Young People. Their unified voice should prompt the current and future Welsh Government to re-evaluate and ultimately implement this needed structural change.

Yn gywir,

**Jane Dodds**
Aelod o'r Senedd dros
Canolbarth a Gorllewin Cymru
—
Member of the Senedd for
Mid and West Wales

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Jane.Dodds@senedd.wales

0300 200 6565
@janedoddswld
@DoddsJane
/JaneDoddsWLD

Jane Dodds

**Jane Dodds MS/AS**
Member of the Senedd for Mid and West Wales
Aelod o'r Senedd dros Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Eitem 6.3

## Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gyllideb Ddrafft 2024-24

**Argymhelliad 1.**

> Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau mecanweithiau ar gyfer cydlynu gweithgareddau gwario ar draws portffolios gweinidogol. Rhaid i'r mecanweithiau hyn gynnwys monitro canlyniadau yn well ac yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion gan gynnwys amcanion cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Dylid cyhoeddi manylion am sut mae canlyniadau'n cael eu monitro ar draws y llywodraeth yn rheolaidd gyda diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Senedd ar ôl 6 mis ac ar ddiwedd y flwyddyn

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Rydym eisoes yn rhannu gwybodaeth sylweddol drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy ein cyhoeddiadau Drafft, Terfynol ac Atodol ar y Gyllideb. Rydym yn adrodd am fonitro a chyflawni canlyniadau drwy adroddiad y Rhaglen Lywodraethu. Yn ogystal, rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth drwy gydol y flwyddyn ar ein gwefan ynghylch monitro a chanlyniadau meysydd polisi. Rydym yn hapus i ystyried gwelliannau drwy ein gwaith ar y Cynllun Gwella'r Gyllideb gan gydnabod bod rhaid i newidiadau o'r fath fod yn gymesur a dylid eu hystyried hefyd drwy gydol unrhyw newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

**Argymhelliad 2.**

| |
|---|
| Mae'n dal yn aneglur i ni o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn nogfennaeth y gyllideb a'r sesiwn gyda'r Gweinidog pa ddata rôl neu waith y data tystiolaeth y mae Unedau wedi'i gael wrth ddod i benderfyniadau cyllidebol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall wella'r agwedd hon ar ddogfennaeth y gyllideb fel rhan o'i hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a bod y gwaith hwn yn dod i ben mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26. |

**Ymateb: Derbyn**

Rydym yn hapus i ystyried sut y gallwn adlewyrchu'n well y rôl y mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn ei chwarae wrth lunio penderfyniadau cyllidebol yn rhan o'n hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. O ran amserlen yr adolygiad, sydd ar hyn o bryd wrthi'n cael ei llunio, rydym yn bwriadu cwblhau'r adolygiad erbyn mis Rhagfyr 2024. Er y byddem yn bwriadu ystyried gwelliannau lle bo hynny'n bosibl ar gyfer Cyllideb 2025-26, rydym yn rhagweld y bydd newidiadau mwy sylweddol yn cael eu hystyried ar gyfer Cyllideb 2026-27. Mae hyn ar y sail y bydd yr adolygiad yn ystyried proses cynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â'i gyflwyno, felly ni fydd modd gweithredu diwygiadau i'r broses sy'n deillio o'r adolygiad ar gyfer Cyllideb 2025-26.

Diben yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yw gwella argaeledd, ansawdd, gronynnedd a hygyrchedd tystiolaeth ar gyfer cydraddoldeb, er mwyn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ledled Cymru i ddatblygu polisïau sy'n seiliedig ar wybodaeth well a mesur eu heffaith. Yn y tymor hwy, bydd hyn darparu gwell tystiolaeth i lywio proses cynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol y gyllideb yn ogystal â'r holl benderfyniadau polisi a monitro a gwerthuso.

**Argymhelliad 3.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion llawn y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i raglenni gwariant heb ddiogelwch sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant o ganlyniad i'w hymarfer ailflaenoriaethu. Dylai hyn gynnwys manylion cymharol am y gwariant arfaethedig cyn ac ar ôl yr ymarfer ailflaenoriaethu. Dylid cyhoeddi hyn cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 |

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn gosod y blaenoriaethau a'r amcanion ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, gyda gweithgarwch mewn perthynas â nhw yn digwydd ar draws y llywodraeth gyfan. Mae'r blaenoriaethau gwariant a'r newidiadau y bwriedir eu gwneud i raglenni gwariant ar draws y llywodraeth wedi'u nodi yn y ddogfennaeth gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr.

**Argymhelliad 4.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu cyngor ymchwil annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith mesurau gwariant ataliol, a dylid rhannu'r canfyddiadau o'r rhain â'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Medi 2024. |

**Ymateb: Gwrthod**

Yn unol â gweithdrefnau a threfniadau cyllid a chyllidebol Llywodraeth Cymru, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ymgorffori ataliaeth yn ein prosesau ar gyfer y Gyllideb. Fodd bynnag, trwy ein hymgysylltiad â Llywodraethau eraill, mae'n amlwg nad oes unrhyw ddull unigol, syml o weithredu y gellir ei ddefnyddio r gyfer ein proses o lunio cyllideb.

Fel rhan o'r gwaith gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb rydym eisoes yn gweithio gydag is-grŵp sy'n ystyried ymgorffori ataliaeth yn ein prosesau, gan ddefnyddio bioamrywiaeth fel maes i dreialu syniadau. Gan ddibynnu ar ganfyddiadau'r gwaith hwn, byddwn yn edrych ar ddull gweithredu cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol, gan brofi materion ymarferol, a nodi'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan.

Byddwn yn parhau i ymchwilio fel rhan o waith ein Cynllun Gwella'r Gyllideb ac yn parhau i fod yn fodlon ystyried rôl cyngor arbenigol annibynnol pan fydd y gwaith hwn wedi'i wneud. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith hwn pan fyddwn yn cyhoeddi diweddariad o'n Cynllun Gwella'r Gyllideb ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft 2025-26.

**Argymhelliad 5.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder a sicrwydd ar oblygiadau gostyngiadau i linell gwariant cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol i'r sector gan gynnwys manylion yr effaith debygol ar ddarparu rhaglenni. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024. |

**Ymateb: Derbyn**

Yr effaith fwyaf arwyddocaol yn llinellau gwariant Cyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol ar gyfer 2024-25 yw gostyngiadau yn y Grant Urddas Mislif, rhesymoli ffrydiau gwaith ymchwil a dadansoddi, a gostyngiadau yn y cyllid yn ôl disgresiwn sydd ar gael ar gyfer Grantiau Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Yn achos y Grant Urddas Mislif, diddymwyd cynnydd a oedd wedi'i gynllunio, ynghyd â gostwng llinell y gyllideb o £300 mil arall. Er bod y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y grant hwn yn cael ei wario ar gaffael nwyddau mislif, mae adolygiad diweddar o'r grant wedi nodi rhai meysydd lle gellid arbed arian o bosibl wrth gaffael, a bu tanwariant bach yn y flwyddyn ariannol a gofnodwyd yn flaenorol. Felly, rydym yn disgwyl gallu parhau i gynnal yr un lefel o ddarpariaeth ag o'r blaen drwy symleiddio ein dull gweithredu. Yn ogystal, ni fydd ymgyrch gyfathrebu gysylltiedig yn digwydd.

Mae rhywfaint o gyllid wedi cael ei ryddhau drwy ddefnyddio dulliau mwy cost-effeithiol o fynd ati i ymchwilio a dadansoddi, fel gwneud rhywfaint o waith yn fewnol, ond ni fu rhaid diddymu unrhyw weithgareddau a gynlluniwyd.

Ar gyfer y cyllid grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant, mae argaeledd cyffredinol y cyllid hyblyg ar gyfer y trydydd sector wedi'i leihau, er bod lefel y dyfarniadau cyllid craidd a ddarperir i bartneriaid allweddol y trydydd sector wedi'i gynnal. Mae'r cyllid grant hyblyg yn cael ei ddyrannu trwy ddyfarniadau grant yn ystod y flwyddyn, felly nid oes unrhyw ddyfarniadau grant presennol wedi'u heffeithio. Rydym yn adolygu ein proses grantiau cystadleuol ac rydym yn disgwyl gwario'r cyllid a ddyrannwyd ond gan fod y gyllideb gyffredinol ar gyfer y grantiau hyn wedi'i lleihau, bydd grantiau'n llai a/neu bydd llai o grantiau'n cael eu dyfarnu nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac efallai na fyddwn yn gallu ymateb mor hyblyg i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg.

**Argymhelliad 6.**

Dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i'r rhesymau dros y sefyllfa annerbyniol lle mae'r Grant Cyfalaf Safle Sipsiwn a Theithwyr wedi arwain at ddyfarnu dim cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24. Dylai'r cyfrif hwn nodi'r rhesymau dros y methiant hwn a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Rydym yn disgwyl i hyn fod ar gael cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth

**Ymateb**: **Derbyn**

Roedd y cyllid cyfalaf o £3.69 miliwn a £3.19 miliwn ar gael i awdurdodau lleol yn 2022-23 a 2023-24 yn y drefn honno. Ni chafwyd ceisiadau am gyllid cyfalaf yn 2022-23. Ni chafwyd ceisiadau am gyllid gan awdurdodau lleol wedyn tan ddiwedd 2023, ac erbyn hynny roedd y cyllid wedi'i gynnig fel rhan o'r ymarfer arbed costau yn ystod y flwyddyn. Cynigiwyd yr arian cyfalaf oherwydd bod yr amser arweiniol ar gyfer prosiectau cyfalaf yn golygu ei fod yn annhebygol iawn o gael ei wario yn ystod 2023-24. Fodd bynnag, mae cyllid o £3.44 miliwn ar gael yn 2024-25 a bydd awdurdodau lleol yn cael eu hannog yn gryf i gyflwyno ceisiadau ochr yn ochr â'r broses Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael ei chwblhau.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi dweud nad ydyn nhw wedi gwneud cais am y grant cyfalaf am eu bod yn aros am ganlyniad yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr diweddaraf gan Lywodraeth Cymru.  Fodd bynnag, mae Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr presennol unrhyw awdurdod lleol yn parhau i fod yn ddilys a chymeradwy nes iddo gael ei ddisodli gan Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr cymeradwy nesaf yr awdurdod lleol ac mae'r ddyletswydd i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn parhau i fod yn nwylo'r awdurdod lleol.  Felly, gallai awdurdodau lleol fod wedi gwneud cais am yr arian.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran asesu Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr rhagorol yn ystod y misoedd diwethaf a chyn bo hir byddaf yn dechrau ysgrifennu at awdurdodau lleol ynghylch canlyniadau'r asesiadau hyn. Yn ogystal, mae canllawiau Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwygio a byddant yn cael eu dosbarthu ym mis Mawrth.  Rwyf wedi bod yn cyfarfod ag aelodau Cabinet awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am bobl a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr gan bwysleisio'r angen i ymateb i anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gwneud cynnydd o ran cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gan gynnwys bodloni anghenion a nodwyd mewn Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr cymeradwy.

O ran gwella'r ddarpariaeth o lety tramwy ar gyfer cymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr ledled Cymru, cyfarfu fy swyddogion â'r holl awdurdodau lleol ym mis Ionawr i drafod y mater ac ystyried a allai safleoedd tramwy rhanbarthol fod yn briodol mewn rhai achosion. Mae trafodaethau pellach wedi'u cynllunio ag awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Byddwn yn cefnogi awdurdodau lleol drwy gryfhau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer darpariaeth dramwy trwy

gasglu gwybodaeth gynhwysfawr am batrymau teithio Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a lleoliadau a dyddiadau gwyliau diwylliannol a/neu grefyddol allweddol, a mudo tymhorol yn sgil cyfleoedd am waith.

Rwy'n cynnal cyfres o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol i drafod eu safbwynt presennol mewn perthynas â chyflawni eu rhwymedigaethau i sicrhau bod llety addas yn cael ei ddarparu ar gyfer teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.  Rwy'n cwrdd ag arweinwyr cydraddoldeb cabinet CLlLC yn rheolaidd, gan ganolbwyntio'n fwyaf diweddar ar faterion yn ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar 7 Rhagfyr 2023. Rwyf hefyd wedi cwrdd â theuluoedd a grwpiau eiriolaeth Sipsiwn Roma a Theithwyr i drafod pryderon penodol.

**Argymhelliad 7.**

| |
|---|
| Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid plismona i asesu effaith llai o fuddsoddiad ar ddiogelwch cymunedol yn enwedig mynd i’r afael â throseddau casineb a dylai gynnal gwerthusiad o rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â’r rhain, erbyn mis Medi 2024. Dylid darparu copi o’r gwerthusiad i’r Pwyllgor hwn pan fydd ar gael |

**Ymateb**: **Derbyn**

Rydym wedi trafod yr argymhelliad hwn gyda Phlismona yng Nghymru, a byddwn yn ceisio darparu adolygiad cyfforddiad ysgafn o effaith buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) a fydd yn cynnwys ystyried eu heffaith o ran mynd i'r afael â throseddau casineb. Dylai hyn fod yn bosibl o fewn yr adnoddau presennol ac yn unol ag  amserlen mis Medi 2024 a bennwyd gan y Pwyllgor, a byddwn yn rhannu'r gwaith gyda'r Pwyllgor ar ôl ei gwblhau.

Welsh Parliament
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Chwefror 2024

## 1. Y cefndir

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau ac argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 (y Gyllideb Ddrafft). Nid yw'n sylwebaeth gynhwysfawr ar bob maes o fewn cylch gwaith y Pwyllgor; yn hytrach mae'n canolbwyntio ar faterion polisi a phrosesau allweddol a fu'n rhan o'n gwaith craffu ar y Gyllideb.

**2.** Bwriad yr adroddiad hwn yw llywio dadl y Senedd ar y Gyllideb Ddrafft, sydd wedi'i threfnu ar gyfer 6 Chwefror 2024 ynghyd ag adroddiadau pwyllgorau eraill y Senedd.

### Dull craffu

**3.** Cawsom ymateb gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar ein meysydd blaenoriaeth ar gyfer craffu ar y gyllideb ar 16 Rhagfyr 2023.

**4.** Gwnaethom gynnal sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, Jane Hutt AS (y Gweinidog) a'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn AS (y Dirprwy Weinidog) ar 22 Ionawr 2024.

**5.** Gwnaethom gyfnewid gohebiaeth â'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ar sawl maes dilynol, ac mae copïau ohonynt ar gael ar dudalen we Cyllideb Ddrafft 2024-25.

# 2. Trosolwg o Gyllideb Ddrafft 2024-25


**6.** Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 (adnoddau a chyfalaf gyda'i gilydd) oddeutu £23.7 biliwn, y dyrannwyd ychydig dros hanner ohoni i Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.[1]

**7.** Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'r Gyllideb Ddrafft "wedi'i datblygu ar adeg pan fo'r sefyllfa ariannol anoddaf i Gymru ei hwynebu ers dechrau datganoli yn ei hanterth". Nododd hefyd:

- nid yw setliad Cymru gan Lywodraeth y DU "yn ddigonol i ymateb i'r pwysau eithafol y mae gwasanaethau cyhoeddus, busnesau a phobl yn eu hwynebu"; ac
- mae chwyddiant yn golygu bod cyllideb gyffredinol Cymru werth £1.3 biliwn yn llai na phan gafodd ei gosod yn 2021.[2]

**8.** Mae ffigurau 1 a 2 yn rhoi trosolwg o brif ddyraniadau'r Gyllideb; a dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi'u dadansoddi yn ôl adran wariant a sut mae'r rhain wedi newid o Gyllideb Derfynol 2023-24.

***Ffigur 1 - Trosolwg o'r prif symiau yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25***




[1] Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2024 i 2025, 19 Rhagfyr 2023
[2] Llywodraeth Cymru, Cyllideb i Ddiogelu'r Gwasanaethau sydd Bwysicaf i Chi, 19 Rhagfyr 2023

***Ffigur 2 - Prif ddyraniadau yn ôl adran wariant a newidiadau o Gyllideb Derfynol 2023-24 i Gyllideb Ddrafft 2024-25*[3]**

| | Cyfanswm dyraniad refeniw a chyfalaf | Newid Cyllideb Derfynol 2023-24 (wedi'i hailddatgan) i Gyllideb Ddrafft 2024-25 | |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | £11,690m | £929m<br>8.6% | ▲ |
| Cyllid a Llywodraeth Leol* | £5,092m | -£33m<br>-0.6% | ▼ |
| Newid Hinsawdd | £2,848m | -£84m<br>-2.9% | ▼ |
| Y Gymraeg ac Addysg** | £2,586m | -£56m<br>-2.1% | ▼ |
| Yr Economi | £541m | -£4m<br>-0.8% | ▼ |
| Materion Gwledig | £420m | -£29m<br>-6.4% | ▼ |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | £333m | -£27m<br>-7.4% | ▼ |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | £142m | -£12m<br>-7.6% | ▼ |

## Gwariant ar Gyfiawnder Cymdeithasol

**9.** Mae'r gyllideb cyfiawnder cymdeithasol yn wynebu'r toriadau dyfnaf ymysg unrhyw faes gwario yn 2024-25, ochr yn ochr â materion gwledig, newid hinsawdd, gwasanaethau canolog a gweinyddu. Bydd £12 miliwn neu 7.6 y cant yn cael ei dorri o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24. Dywedodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fod gweinidogion yn wynebu "penderfyniadau hynod o lym a phoenus" ac eglurodd fod cynlluniau gwariant eu bod yn "ailganolbwyntio ein cynlluniau gwariant ar y gwasanaethau cyhoeddus sydd bwysicaf i bobl."[4]

[3] * Heb gynnwys tua £1.1 biliwn mewn incwm ardrethi annomestig. ** Yn cynnwys dyraniad o £514 miliwn mewn refeniw anghyllidol yn sgil benthyciadau i fyfyrwyr. Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu. Dylid cyfeirio at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 am yr union ffigurau.
[4] Tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog

**10.** Y dyraniad ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 ar gyfer prif grŵp gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol (refeniw a chyfalaf) yw £142 miliwn, o gymharu â £154 miliwn ar gyfer 2023-24 (gweler Tabl 1).

***Tabl 1 - Cyfanswm y dyraniadau i'r MEG cyfiawnder cymdeithasol*[5]**

| | **£ miliwn** |
|---|---|
| **Cyllideb Ddrafft 2024-25** | 142 |
| **Cyllideb Ddrafft 2024-5 (yn ôl prisiau 2023-24)** | 140 |
| **Cyllideb Derfynol 2023-24** | 154 |

**11.** Mae hyn yn ostyngiad o £11.6 miliwn o'i gymharu â'r hyn sydd yng Nghyllideb Derfynol 2023-24 neu 7.6% (gweler Tabl 2).

***Tabl 2 - Newid mewn cyfiawnder cymdeithasol MEG o 2023-24 i 2024-25 mewn termau enwol a real***

| **Enwol / Arian** | **Termau real** |
|---|---|
| **-£11.6 miliwn** | **-£14 miliwn** |
| -7.6% | -9.1% |

## Ein barn ni

### Dyraniadau cyffredinol

Rydym yn derbyn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau anodd yn enwedig wrth wynebu setliad cyllidol heriol. Er mwyn blaenoriaethu cyllid ychwanegol i'r GIG a llywodraeth leol, mae'n golygu nad oes modd osgoi gwneud toriadau i rannau eraill o'r gyllideb. Serch hynny, gan fod llawer yn wynebu caledi economaidd, bydd effaith y toriadau i gyfiawnder cymdeithasol yn debygol o gael ei theimlo gan rai o'r bobl fwyaf agored i niwed.

Ar 7.6%, maes cyfiawnder cymdeithasol sy'n wynebu'r toriadau dyfnaf o unrhyw faes gwariant yn 2024-25. Oherwydd eu natur drawsbynciol, mae sawl maes gwariant sy'n hyrwyddo amcanion cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn ymddangos mewn grwpiau gwariant adrannol eraill. Ymysg rhai enghreifftiau mae gwariant ar atal digartrefedd (yn y portffolio cyllid a llywodraeth leol), y Rhaglen Cartrefi Cynnes (yn y portffolio newid hinsawdd) a

[5] Ymchwil y Senedd, Diagram rhyngweithiol i archwilio Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 (senedd.cymru)

hyrwyddo talebau Cychwyn Iach (yn y portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol). O ystyried bod y wasgfa ariannol yn cael ei dosbarthu'n anwastad ar draws portffolios, mae'n bwysicach nag erioed bod Gweinidogion yn cydlynu gweithgareddau gwariant yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys rhoi mwy o bwyslais ar fonitro canlyniadau (yn hytrach nag allbynnau) er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion allweddol y llywodraeth, gan gynnwys mewn perthynas â chydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau mecanweithiau ar gyfer cydlynu gweithgareddau gwario ar draws portffolios gweinidogol. Rhaid i'r mecanweithiau hyn gynnwys monitro canlyniadau yn well ac yn fwy effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni amcanion gan gynnwys amcanion cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Dylid cyhoeddi manylion am sut mae canlyniadau'n cael eu monitro ar draws y llywodraeth yn rheolaidd gyda diweddariad yn cael ei ddarparu i'r Senedd ar ôl 6 mis ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

## Crynodeb o newidiadau yn ôl Llinell Wariant y Gyllideb (BEL)

**12.** O fewn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, mae gwariant yn cael ei gategoreiddio i is-grwpiau a elwir yn Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs). Darperir crynodeb o newidiadau i BELs allweddol yn Nhabl 3.[6]

**13.** Eglurodd y Gweinidog fod “arbedion sylweddol o'r portffolio bach hwn” wedi cael eu harwain gan sawl egwyddor gan gynnwys diogelu gwasanaethau rheng flaen ac osgoi penderfyniadau sy'n ehangu anghydraddoldebau.[7] Mae paragraffau 11 i 46 o bapur tystiolaeth y Gweinidog yn nodi'r rhesymeg y tu ôl i newidiadau i gyllid refeniw ar gyfer pob BEL.[8]

[6] Mae'r ffigurau a ddarperir isod, ac sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad A o bapur y Gweinidog, yn cymharu Cyllideb Ddrafft 2024-25 â dyraniad y blynyddoedd blaenorol (cyllideb derfynol 2023-24).
[7] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A
[8] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A[8]

***Tabl 3 - Crynodeb o newidiadau i BELs yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24***

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Pa fentrau sydd wedi'u cynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon? | Newid ar Gyllideb Derfynol 2023-24 mewn termau enwol/arian parod | Newid canran ar Gyllideb Derfynol 2023-24 |
|---|---|---|---|
| **Cefnogi Cymunedau** | Cynhwysiant ariannol a digidol, incwm sylfaenol, datblygu cynaliadwy rhyngwladol, banc cymunedol a phartneriaeth cymdeithasol. | -£2.4 miliwn | -5.7% |
| **Cymorth Cymunedol a Diogelwch** | Cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. | -£7.5 miliwn | -34% |
| **Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol** | Cymunedau cydlynol, cydraddoldeb, tlodi a thystiolaeth a chefnogaeth plant. Yn flaenorol, roedd yn cynnwys elusen cydraddoldeb rhwng y rhywiau, Chwarae Teg. | -£1.2 miliwn | -12% |
| **Gwasanaethau Eirioli** | Cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori. | Heb ei newid | -1.6% (termau real) |
| **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol** | Yn cynnwys cyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Heb ei newid. | -1.6% (termau real) |
| **Cymorth i'r Sector Gwirfoddol** | Cymorth ar gyfer gwirfoddoli a'r Sector Gwirfoddol | +£8.5 miliwn | +11% |
| **Cyfleusterau Cymunedol** | Y rhaglen cyfleusterau cymunedol. | +£6.5 miliwn | +9% |

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Pa fentrau sydd wedi'u cynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb hon? | Newid ar Gyllideb Derfynol 2023-24 mewn termau enwol/arian parod | Newid canran ar Gyllideb Derfynol 2023-24 |
|---|---|---|---|
| **Gwasanaethau Tân ac Achub a Chydnerthedd** | Gwasanaethau Tân ac Achub – systemau cyfathrebu, a diogelwch tân cymunedol. | -£1.6 miliwn | -21% (mewn termau real) |
| **Safleoedd sipsiwn a theithwyr** | Cyfalaf i wella neu gynyddu safleoedd Sipsiwn-Teithwyr. | +£0.21 miliwn | +8% |
| **Comisiynwyr** | Costau swyddfeydd Comisiynwyr Pobl Hŷn; Plant; a Chenedlaethau'r Dyfodol a Phenodiadau Cyhoeddus Cymru. | -£0.1 miliwn | -6.6% |
| **Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuenctid a Throseddwyr Benywaidd** | Y Glasbrintiau cyfiawnder ieuenctid a throseddwyr benywaidd. | +£0.2 miliwn | +16% |

# 3. Ystyriaethau o ran cydraddoldeb a phroses y Gyllideb Ddrafft

**14.** Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn nodi:

- Mae cyflogau is a gwaith rhan amser, ac effaith yr argyfwng costau byw, yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd **â phlant, menywod a phobl anabl a phobl o rai cefndiroedd Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.** Felly, mae'r grwpiau hyn yn wynebu'r risg fwyaf os yw'r gyllideb yn effeithio ar wasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, megis y rhai sy'n anelu at fynd i'r afael â thlodi.

- **Mae'r cynnydd mewn prisiau bwyd yn effeithio'n arbennig ar bobl ar incwm isel;** bydd grwpiau incwm is yn parhau i gael trafferth ymdopi gydag effaith prisiau bwyd uwch ar eu safonau byw hyd yn oed wrth i gyfradd y cynnydd ostwng.

- Mae **plant a phobl ifanc** yn wynebu effeithiau dwysach yn sgil pandemig Covid-19.

**15.** Amlinellodd y Gweinidog rôl y tair uned ddata tystiolaeth wrth lunio'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a dywedodd bod eu rôl yn hanfodol bwysig.[9]

## Cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chyllidebu ar sail rhywedd

**16.** Mae anghydraddoldeb cyson rhwng y rhywiau wedi golygu bod menywod yng Nghymru wedi cael eu taro'n galetach gan bwysau costau byw yn ôl Grŵp Cyllideb Menywod Cymru Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN Cymru). Galwodd ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau pellach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau a gweithredu argymhellion yr Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau 'Gwneud Nid Dweud' y maen nhw'n dweud, gwaetha'r modd, ei fod yn parhau i fod yn araf.[10]

**17.** Er mwyn cefnogi'r nod o gyllidebu ar sail rhywedd, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal tri chynllun peilot yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Croesawodd WEN Cymru hyn ond dywedodd ei bod yn parhau i fod yn aneglur sut y bydd yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot yn llywio'r gwaith o lunio polisïau ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym fod angen mwy o wybodaeth am gynnydd a gwerthuso ac yr hoffent weld cyllidebu ar sail rhywedd yn cael ei brif ffrydio yn y dyfodol.[11]

**18.** Dywedodd y Gweinidog fod cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn flaenoriaeth lwyr a thynnodd sylw at ddiogelu cyllid ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gofal plant fel tystiolaeth o hyn.[12]

**19.** Yn ôl y Dirprwy Weinidog, roedd dysgu o'r cynlluniau peilot cyllidebu rhywedd wedi siapio'r Gyllideb ac roedd y Llywodraeth yn edrych ar ffyrdd o ymgorffori dulliau cyllidebu ar sail rhywedd ymhellach at brosesau cyllideb a threth fel rhan o adolygiad ehangach o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a gynhelir eleni.[13]

---

[9] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[10] Y Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod
[11] Y Pwyllgor Cyllid, tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cyllideb Menywod Cymru a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod
[12] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[13] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024

**20.** Gofynnodd Sioned Williams AS sut y gellid cysoni'r effaith ar fenywod gyda'r dull hwn, gan roi dwy enghraifft benodol - toriadau i gyfrifon dysgu personol a'r grant urddas yn ystod mislif. Eglurodd y Dirprwy Weinidog fod dyraniad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer urddas yn ystod y mislif yn seiliedig ar wariant a ragwelir ar hyn o bryd yn 2023-24 ac arbedion y gellid eu gwneud drwy fabwysiadu dull mwy strategol yn y dyfodol. Ni chafodd y mater o gyfrifon dysgu personol ei drafod.[14]

## Cymorth i bobl anabl

**21.** Mae bywyd yn fwy drud i bobl anabl a'u teuluoedd. Mae hyn yn rhannol oherwydd y costau uwch a ysgwyddir ar gyfer nwyddau a gwasanaethau hanfodol fel gwresogi, yswiriant, offer arbenigol, trafnidiaeth hygyrch, bwyd a therapïau arbenigol.

**22.** Amlygodd Anabledd Cymru y costau uwch hyn sy'n wynebu pobl anabl. Mae ymchwil gan Scope yn dangos bod angen £975 ychwanegol y mis ar aelwydydd anabl sydd ag o leiaf un oedolyn neu blentyn anabl er mwyn cael yr un safon byw ag aelwydydd nad ydynt yn anabl.[15] Ochr yn ochr â'r Grŵp Arbenigol ar yr Argyfwng Cost Byw, galwodd Anabledd Cymru ar Lywodraeth Cymru i gynnwys cymorth ariannol penodol i bobl anabl yn y Gyllideb Ddrafft. Cododd Sarah Murphy AS hyn gyda'r Gweinidog, ac ymatebodd y Gweinidog fel a ganlyn:

> *"It's pretty clear, isn't it, why it hasn't happened. We've got a £1.3 billion cut to our budget. My budget is £139 million [...] The money isn't there."*[16]

### Ein barn ni

Sail dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau gwariant

Yn amlwg, mae gosod Cyllideb Ddrafft 2024-25 wedi golygu bod Gweinidogion wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd. Fodd bynnag, mae anghysondeb rhwng y sylfaen tystiolaeth sy'n sail i'r penderfyniadau hyn gyda rhywfaint o'r rhethreg a manylion y dystiolaeth a gyflwynwyd i ni. Er enghraifft, tynnodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod sylw at ddiffyg eglurder o ran sut y cymhwyswyd yr hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd. Yn yr un modd, o ran effaith ar nodweddion gwarchodedig eraill, nid ydym yn

[14] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[15] Scope, Disability Price Tag (Saesneg yn unig), Rhagfyr 2023
[16] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024

argyhoeddedig bod yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn dangos lefel y manylder a'r trylwyredd y mae Llywodraeth Cymru yn ei honni. Rydym yn cydnabod mai gwaith sydd ar y gweill yw hwn, a chefnogwn uchelgeisiau'r Llywodraeth i gael data mwy cywir. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai bod yn fwy gonest ynghylch y cydbwysedd rhwng tystiolaeth galed a'r dewisiadau gwleidyddol sy'n gysylltiedig â rhai penderfyniadau gwario ar brydiau yn fwy credadwy a thryloyw.

**Casgliad 1.** Rydym yn rhwystredig bod y cynnydd yn araf wrth brif ffrydio prosesau cyllidebu ar sail rhywedd. Nodwn nad yw'r pryderon hyn yn newydd a bod y Pwyllgor a'n rhagflaenodd wedi mynegi pryderon tebyg yn 2019-20. Disgwyliwn weld cyllidebu ar sail rhywedd yn cael ei brif ffrydio fel rhan o'r broses ar gyfer llunio cynlluniau gwariant cyllideb 2025-26 o leiaf chwe mis ar ôl cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2025-26. Dylai hyn gynnwys darparu enghreifftiau clir sy'n dangos effaith cyllidebu ar sail rhywedd ar benderfyniadau gwariant mewn dogfennau cyllidebol a thystiolaeth arall a ddarperir i Bwyllgorau'r Senedd ar Gyllideb Ddrafft 2025-26.

**Argymhelliad 2.** Mae'n dal yn aneglur i ni o'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn nogfennaeth y gyllideb a'r sesiwn gyda'r Gweinidog pa ddata rôl neu waith y data tystiolaeth y mae Unedau wedi'i gael wrth ddod i benderfyniadau cyllidebol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall wella'r agwedd hon ar ddogfennaeth y gyllideb fel rhan o'i hadolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol a bod y gwaith hwn yn dod i ben mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2025-26.

**Casgliad 2.** Rydym yn croesawu'r ymrwymiadau a roddodd y Gweinidog i drafod gwaith pob un o'r tair Uned yn fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

# 4. Trechu tlodi

## Tlodi a chostau byw cynyddol

**23.** Ym mis Medi, cyhoeddodd Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw adroddiad i Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys 29 o argymhellion.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb ar ôl ein sesiwn graffu ar 23 Ionawr 2024.[17] Cyn cyhoeddi'r ymateb llawn, dywedodd y Gweinidog wrthym:[18]

> *"Mae rhai argymhellion, er enghraifft y gwaith ar Siarter Budd-daliadau Cymru a'r Strategaeth Tlodi Plant ar ei newydd wedd, y gallwn fwrw ymlaen â nhw, ac a fydd yn helpu i lywio'r ffordd rydym yn cysoni ein rhaglenni ym mhob rhan o'r llywodraeth a manteisio i'r eithaf ar ein camau gwrth-dlodi unigol.*
>
> *Fodd bynnag, mae nifer o argymhellion na fu modd inni weithredu arnynt yn y ffordd y byddem yn dymuno ei wneud oherwydd y pwysau cyllidebol presennol, a dim ond os bydd cyllid ychwanegol sylweddol ar gael y cânt eu gwireddu."*[19]

**24.** Pan ofynnodd Pwyllgor Cyllid y Senedd a oedd adroddiad y Grŵp Arbenigol wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn y Gyllideb Ddrafft, dywedodd un o'i aelodau, Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan: "If it has, it's hard to see".[20]

**25.** O ran mynd i'r afael â thlodi ac ymateb Llywodraeth Cymru i bwysau costau byw, amlygodd y Gweinidog amddiffyniad cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, y Gronfa Gynghori Sengl a'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol fel blaenoriaethau allweddol. Wrth ymateb i bryderon bod y galw am y Gronfa Cymorth Dewisol ar fin mynd y tu hwnt i'r gyllideb uchaf yn y flwyddyn ariannol 2023-24 hon, dywedodd y Gweinidog wrthym fod y gyllideb yn cael ei harwain gan alw ac y byddant yn parhau i fodloni'r galw hwnnw.[21]

**26.** Tynnodd y Gweinidog sylw hefyd at feysydd gwariant eraill gan gynnwys dyraniadau cyllidebol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi bwyd trwy wella sgiliau coginio, cymorth tanwydd brys a gwariant o fewn y Gyllideb ehangach ar atal digartrefedd.[22]

---

[17] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, Ymateb i'r Adroddiad gan y Grŵp Arbenigol ar Gostau Byw, 23 Ionawr 2024
[18] Grŵp Arbenigol Cymru ar yr Argyfwng Costau Byw, Adroddiad i Lywodraeth Cymru, 26 Medi 2023
[19] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A
[20] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2024
[21] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[22] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A

## Tlodi plant

**27.** Dywedodd y Gweinidog wrthym fod dyraniadau gwariant ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant wedi lleihau drwy ailflaenoriaethu neu ohirio gweithgarwch, yn hytrach na chwtogi neu ddod â rhaglenni i ben ac y byddai rhaglenni a nodwyd o fewn y Strategaeth Tlodi Plant yn dal i gael eu darparu ond ar raddfa is.[23] Tynnodd sylw hefyd at wariant mewn portffolios gweinidogol eraill a fyddai'n lleddfu tlodi plant fel y grant Hanfodion Ysgol, Grant Amddifadedd Disgyblion, a phrydau ysgol am ddim cyffredinol:

> *"we've done everything that we can to protect, not just in my budget, but across the Welsh Government."*[24]

### Siarter Budd-daliadau Cymru

**28.** Lansiwyd Siarter Budd-daliadau Cymru ar 22 Ionawr 2024 ac amlygodd y Gweinidog ei rôl bwysig ar gyfer lliniaru tlodi a'r Strategaeth Tlodi Plant yn benodol.[25]

**29.** Er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau, amlygodd y Gweinidog a'i swyddogion y gwaith trawslywodraethol a oedd yn digwydd i sicrhau "Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif" a chyfeiriodd at gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant Dangos i staff rheng flaen a rhwydwaith cenedlaethol newydd o rwydweithiau cynghori.[26]

## Gwariant ataliol

**30.** Pwysleisiodd Llywodraeth Cymru fod y Gyllideb Ddrafft wedi ei siapio gan egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys yr egwyddor o atal. Fodd bynnag, roedd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid yn dadlau'r honiad hwn i raddau helaeth gan ddweud "nad yw'r broses o ymgorffori atal ym mhroses y gyllideb wedi'i gwireddu eto" a bod dogfennau'r Gyllideb Ddrafft yn dangos "ymrwymiad cyffredinol i gael agwedd ataliol" yn unig.[27]

---

[23] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A
[24] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[25] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[26] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024
[27] Y Pwyllgor Cyllid, Llythyr oddi wrth Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 10 Ionawr 2024

**31.** Ysgrifennodd Cwmpas i dynnu sylw at effaith gostyngiad o 50% yn y cyllid ar gyfer Cymunedau Digidol Cymru sy’n cynnwys rhaglenni i wrthsefyll allgáu digidol.[28] Nodwyd bod grwpiau sydd ar yr ymylon yn fwy tebygol o gael eu hallgáu’n ddigidol a bod tueddiadau diweddar fel costau byw cynyddol yn peri risg o ehangu’r bwlch cynhwysiant digidol hyd yn oed ymhellach. Mae mynd i’r afael ag allgáu digidol yn allweddol i amcan 1 y Strategaeth Tlodi Plant a Chenhadaeth 2 Strategaeth Ddigidol Cymru.[29]

## Ein barn ni

### Trechu tlodi

Nodwn fod y Gweinidog wedi diogelu sawl dyraniad gwariant sy'n cynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â thlodi a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw. Mae'r rhain yn cynnwys gwariant ar y Gronfa Cymorth Dewisol, y Gronfa Gynghori Sengl, a'r Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol. O ystyried yr amgylchiadau economaidd anodd y mae llawer o bobl yn eu hwynebu, mae croeso arbennig i'r Gweinidog gadarnhau y bydd y galw a roddir ar y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael ei fodloni.

Mae amddiffyniadau mwy cymwys wedi'u rhoi i feysydd gwariant fel cyflwyno'r Strategaeth Tlodi Plant. Yn ôl y Gweinidog, mae gweithgareddau sy'n ymwneud â hyn wedi cael eu “hailflaenoriaethu” neu eu cwtogi; heb fwy o fanylder mae'n anodd i ni ddeall beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol. Rydym yn arbennig o awyddus i ddeall natur y newidiadau sy’n cael eu gwneud ac yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion llawn o sut beth yw gwariant cyn ac ar ôl ailflaenoriaethu'r gyllideb.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi manylion llawn y newidiadau y mae'n bwriadu eu gwneud i raglenni gwariant heb ddiogelwch sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant o ganlyniad i'w hymarfer ailflaenoriaethu. Dylai hyn gynnwys manylion cymharol am y gwariant arfaethedig cyn ac ar ôl yr ymarfer ailflaenoriaethu. Dylid cyhoeddi hyn cyn gynted â phosibl a heb fod yn hwyrach nag wythnos cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024.

---

[28] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Gohebiaeth oddi wrth CWMPAS at y Cadeirydd ynghylch Cyllideb Ddrafft 2024/2025, 31 Ionawr 2024 (Saesneg yn unig)
[29] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024, 23 Ionawr 2024; Llywodraeth Cymru, Strategaeth Ddigidol i Gymru, 23 Mawrth 2021

**Siarter Budd-daliadau Cymru**

Rydym yn croesawu'n fawr y ffaith bod Cyngor Partneriaeth Cymru wedi mabwysiadu Siarter Budd-daliadau Cymru ac yn gobeithio y bydd gwaith y Grŵp Llywio yn cynnal momentwm wrth i'r ffocws symud tuag at gyflawni. Mae'r ystadegau ar ymwybyddiaeth a nifer y bobl sy'n manteisio ar fuddion yng Nghymru fel y Grant Hanfodion Ysgolion (19%), cymorth gyda chostau iechyd (17%) a hyd yn oed Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (58%) yn ein hatgoffa o pam bod y gwaith hwn mor hanfodol.[30] Maent hefyd yn pwysleisio ein disgwyliad y dylai cynnydd cyflym fod yn bosibl o ystyried y sylfaen isel iawn mewn rhai achosion. Rydym yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi diweddariadau monitro rheolaidd i ni ac yn gofyn i'r rhain gynnwys ffigurau a dorrwyd yn ôl ardal awdurdod lleol fel y gellir monitro'r cynnydd yn effeithiol.

**Gwariant ataliol**

Er gwaethaf ymrwymiad rhethregol i atal, mae profiad blaenorol yn awgrymu bod mesurau gwariant ataliol yn cael eu gwanhau yn y Gyllideb Ddrafft hon. Mae toriadau i'r gyllideb ar gyfer cynhwysiant digidol yn un enghraifft o hyn gan fod sicrhau bod grwpiau difreintiedig yn gallu cael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau digidol yn ddull ataliol, lle buddsoddir er mwyn arbed. Ymhellach, rydym yn nodi sylwadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sy'n nodi sawl ffordd y gellid mabwysiadu dull mwy ataliol. Roedd ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft 2023-24, argymhelliad 10, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu cyngor ymchwil annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith mesurau gwariant ataliol. Cafodd yr argymhelliad hwn ei wrthod. Yng ngoleuni sylwadau Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r angen i gynyddu gwerth pob punt sy'n cael ei gwario, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu cyngor ymchwil annibynnol, arbenigol i wella sut rydym yn mesur effeithiolrwydd ac effaith mesurau gwariant ataliol, a dylid rhannu'r canfyddiadau o'r rhain â'r Pwyllgor erbyn diwedd mis Medi 2024.

**Casgliad 3.** Byddem hefyd yn croesawu mwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn y bydd gostyngiad o 50 y cant mewn gwariant ar Gymunedau Digidol

[30] Mae'r ffigurau ar gyfer ymwybyddiaeth yr ymatebwyr o bob budd-dal ac maent ar gael o Sefydliad Bevan, Making the Case for a Welsh Benefits System – people's experiences (Saesneg yn unig), Ionawr 2024

Cymru yn ei olygu ar gyfer cynhwysiant digidol yn enwedig o ran darparu rhaglenni a chanlyniadau gan gynnwys amcan 1 y Strategaeth Tlodi Plant a Chenhadaeth 2 y Strategaeth Ddigidol i Gymru. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024.

# 5. Cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol

**32.** Mae'r gyllideb ar gyfer cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol yn wynebu gostyngiad o £1.2 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft (o'i gymharu â 2023-24) a gostyngiad o £3.2 miliwn yn gyffredinol o'i gymharu â'r Gyllideb Ddangosol.

**33.** Mynegodd rhanddeiliaid gan gynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a WEN Cymru bryderon ynghylch y canlyniadau i sefydliadau gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar gydraddoldeb. Tynnodd WEN Cymru sylw hefyd at y toriadau a wynebir yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gyfer 2023-24 a galwodd am eglurder ynghylch pa raglenni fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau gwariant hyn.[31]

**34.** Cadarnhaodd y Gweinidog er gwaethaf y toriadau hyn, fod Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddai'n dal i gyflawni ei hymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys "y rhai sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl".[32]

## Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr

**35.** Bydd y cyllid ar gyfer safleoedd Sipsiwn Teithwyr yn cynyddu 8% neu £0.21 miliwn o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24, sy'n golygu cyfanswm dyraniad o £3.4 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25.

**36.** Yn 2022-23 daeth i'r amlwg nad oedd unrhyw arian grant wedi'i ad-dalu. Ar gyfer blwyddyn ariannol gyfredol 2023-24, cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gyllid grant wedi'i dalu neu y disgwylir iddo gael ei dalu am yr ail flwyddyn yn olynol. Amlinellodd y Gweinidog ei gobeithion ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf:

[31] WCVA, Cyllideb Ddrafft 2024/25 – datganiad gan CGGC, 19 Rhagfyr 2023
[32] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A

> *"the key thing is that we've got this allocation for the next financial year. And as I've been meeting authorities—and some of those authorities have been the ones, from north to south, with perhaps the most challenging issues in terms of those accommodation assessments—I am urging them to get their proposals ready for access to this sites grant for the next financial year, and have protected that capital budget."*[33]

## Ein barn ni

### Cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol

Nodwn fod y cyllid a ddyrennir ar gyfer cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol yn wynebu rhai o'r gostyngiadau mwyaf mewn unrhyw faes gwariant. Rydym yn croesawu sicrwydd y bydd Llywodraeth Cymru yn dal i gyflawni ei holl ymrwymiadau Rhaglen Lywodraethu, fodd bynnag, mae'r effaith ar y sector ehangach yn debygol o fod yn sylweddol. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o eglurder a sicrwydd ar yr hyn y bydd y gostyngiadau hyn yn y gyllideb yn ei olygu i'r sector yn enwedig o ran darparu rhaglenni.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru roi eglurder a sicrwydd ar oblygiadau gostyngiadau i linell gwariant cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol i'r sector gan gynnwys manylion yr effaith debygol ar ddarparu rhaglenni. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024.

### Safleoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Rydym wedi synnu o glywed bod cyfanswm o £0 wedi cael ei dalu i awdurdodau lleol am yr ail flwyddyn yn olynol i ddarparu safleoedd teithwyr sipsiwn a theithwyr. Nid ydym yn amau ymrwymiad personol y Gweinidog i'r mater hwn, ond mae angen gofyn cwestiynau difrifol i ganfod pam nad yw un awdurdod lleol wedi cyflwyno cais llwyddiannus am dros ddwy flynedd sy'n arwain at ddyfarnu grant. Mae'r methiant hwn yn annerbyniol ac rydym yn disgwyl cael cyfrif llawn o'r rhesymau dros hyn a sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r rhain. Rydym yn rhannu'r farn hon gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ac felly yn cyflwyno argymhelliad ar y cyd am yr ail dro ar y pwnc hwn.

[33] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion, 22 Ionawr 2024

**Argymhelliad 6.** Argymhellodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y cyd y dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth lawn i'r rhesymau dros y sefyllfa annerbyniol lle mae'r Grant Cyfalaf Safle Sipsiwn a Theithwyr wedi arwain at ddyfarnu dim cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022-23 a 2023-24. Dylai'r cyfrif hwn nodi'r rhesymau dros y methiant hwn a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Rydym yn disgwyl i hyn fod ar gael cyn y drafodaeth ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024.

# 6. Meysydd eraill

**37.** Mae'r Tocyn Croeso yn darparu teithio rhatach ar fysiau i ffoaduriaid yng Nghymru a chafodd ei gyflwyno mewn ymateb i'r rhyfel yn Wcráin.[34] Ym mis Rhagfyr 2023 nododd Llywodraeth Cymru eu bod yn ystyried y camau nesaf ar gyfer y cynllun a galwodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru am ei estyniad y tu hwnt i fis Mawrth 2024.[35]

### Ein barn ni

Mae Tocynnau Croeso wedi chwarae rhan bwysig yn ymateb cyfunol Cymru i bobl sy'n ffoi rhag rhyfel ac argyfwng dramor. Byddai'n siomedig i'r cynllun hwn ddod i ben yn sydyn ym mis Mawrth 2024.

**Casgliad 4.** Byddem yn croesawu mwy o fanylion gan Lywodraeth Cymru am drefniadau ar gyfer olynydd i'r cynllun hwn cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol a drefnwyd ar gyfer 5 Mawrth 2024.

## Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu

**38.** Mae'r gyllideb ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi'i chynnwys yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogaeth Gymunedol a Diogelwch, sydd wedi'i dorri £7.4 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25 (mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o -34 y cant mewn arian parod). Dywedodd y Gweinidog wrthym fod yr arbediad yn seiliedig ar ostyngiad yn nifer y Swyddogion Cymorth

[34] Llywodraeth Cymru, Cynllun Teithio am Ddim i Ffoaduriaid ar Fysiau Cymru 'Tocyn Croeso': telerau ac amodau, Mai 2022
[35] Senedd Cymru, Cwestiwn Ysgrifenedig 89921, Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru (Saesneg yn unig)

Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru o 510 ar ddiwedd 2023-24 i 300 erbyn diwedd 2024-25.[36]

## Ein barn ni

Mae'n fwyfwy anodd cyfiawnhau cyllid Llywodraeth Cymru mewn meysydd polisi sydd heb eu datganoli yng nghyd-destun penderfyniadau gwario anodd. Hyd yn oed ar ôl y toriad yn y Gyllideb Ddrafft, bydd buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn parhau i fod yn sylweddol sef £15.5 miliwn.

Nododd y Gweinidog y bydd hi'n gweithio gyda phartneriaid plismona ar oblygiadau llai o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru. Mae’n bwysig bod gwaith o’r fath yn ystyried yr effaith ar ddiogelwch cymunedol yn enwedig mynd i’r afael â throseddau casineb. Felly, rydym yn annog y cynhelir gwerthusiad a ariennir ar y cyd o effaith cyllid o flynyddoedd blaenorol er mwyn galluogi targedu gweddill y cyllid at y dyfodol, a byddem yn croesawu cael copi o'r gwerthusiad pan fydd ar gael.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid plismona i asesu effaith llai o fuddsoddiad ar ddiogelwch cymunedol yn enwedig mynd i’r afael â throseddau casineb a dylai gynnal gwerthusiad o rôl Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariennir gan Lywodraeth Cymru mewn blynyddoedd blaenorol mewn perthynas â’r rhain, erbyn mis Medi 2024. Dylid darparu copi o’r gwerthusiad i’r Pwyllgor hwn pan fydd ar gael.

[36] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, Papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac Atodiad A

**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad**
**Counsel General and Minister for the Constitution**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CG/PO/72/2024
Ein cyf/Our ref CG/PO/72/2024

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

5 Mawrth 2024

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol**

Yn dilyn fy llythyr ar 24 Chwefror ac yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol, gallaf gadarnhau bod chweched cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol wedi'i aildrefnu i'w gynnal ar 12 Mawrth 2024.

Fi fydd yn cadeirio'r cyfarfod a bydd y testunau i'w trafod yr un fath.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd, ac at Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Byddaf yn rhoi diweddariad ar ôl y cyfarfod.

**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Counsel General and Minister for the Constitution

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.